

Cwestiynau Ymgynghori

Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad

Pwyswch 'Tab' i fynd â chi i'r pwynt nesaf.

Eich enw: Kayna Tregay

Sefydliad (os yn berthnasol): Cyfoeth Naturiol Cymru

Ebost/rhif ffôn: kayna.tregay@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Eich cyfeiriad: Tŷ Cambria, 29 Ffordd Casnewydd, Caerdydd,

CF24 0TP

Adran 1 – Adolygu *Canllaw Rheoli Gwersylla Diawdurdod* Llywodraeth Cymru

Cwestiwn 1 – A yw'r canllaw yn egluro'n llawn y broses sy'n rhaid ei dilyn os ydych yn gorfod ymdrin â gwerysloedd diawdurdod? A oes yna unrhyw wybodaeth bellach sydd angen i ni ei chynnwys?

Paragraff 108 - Lleoliadau ble nad oes modd ystyried gwerysloedd yn dderbyniol mewn unrhyw amgylchiadau. Rydym yn croesawu'r ffaith bod safleoedd ble nad ystyrir gweryslla'n dderbyniol dan unrhyw amgylchiadau yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), safleoedd ble gallai llygredd neu wastraff o gerbydau ddifrodi'r ddaear, dŵr neu gyrsiau dŵr, ac ardaloedd ble mae llygriad tir difrifol. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r rhestr ym mharagraff 108 gynnwys:

- Safleoedd mewn perygl o lifogydd neu erydiad arfordirol *.
- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA). (Er bod GNG, ACA a AGA hefyd wedi eu dynodi'n SoDdGA, cyfeirir atynt ar wahân yn y canllaw hwn).
- Safleoedd ble mae posibilrwydd y bydd difrod neu ymyrraeth ddifrifol yn digwydd i rywogaeth a warchodir sydd yn bresennol neu yng nghyffiniau'r safle. Mae hyn oherwydd y gall rhai gwerysloedd diawdurdod hefyd gael effaith negyddol ar rywogaethau a warchodir sy'n bresennol neu ar eu cynefin**. Mae croeso i Awdurdodau Lleol gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru am fwy o fanylion ynglŷn â hyn.
- Os bydd gwerysll yn gwrthdaro ag amcanion Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. (Am fwy o gyngor am effeithiau posibl gwerysloedd ar amcanion statudol Parciau Cenedlaethol ac AHNE, dylai swyddogion gyfeirio at Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol neu Gynllun Rheoli AHNE, Cynllun Datblygu Lleol, canllawiau cenedlaethol ar gynllunio neu ofyn am gyngor gan swyddogion cynllunio'r awdurdod).
- Safleoedd hamdden i'r cyhoedd – Mae CNC yn rheoli nifer o safleoedd o'r fath mewn coetiroedd. (Gellid ymdrin â'r pwynt hwn yn y pedwerydd pwynt bwled ym mharagraff 108 gan gynnwys y geiriau, "neu dir arall a ddefnyddir at ddibenion hamdden").

- Coetiroedd cyhoeddus a phreifat sydd ar agor i'r cyhoedd at ddibenion hamdden, addysg, iechyd a lles.

* Byddem yn argymhell yn gryf y dylid annog Awdurdodau Lleol (ALI) i beidio â chaniatáu gweryslyoedd mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Mae llifogydd ar safle yn gallu arwain at effeithiau negyddol i ddiogelwch pobl ac eiddo. Gallai hyn hefyd arwain at broblemau atebolrwydd a phroblemau economaidd i dirfeddianwyr.

Fodd bynnag, os oes unrhyw ALI yn dymuno caniatáu gweryslya, dros dro neu yn barhaol, dylent wneud pob ymdrech i roi cyngor i drigolion ar wrthsefyll llifogydd, ar wydnwch ac ar ymadael. Mae mwy o wybodaeth ar ein gwefan (www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Mewn perthynas â data, rydym yn argymhell y dylai ALLau ystyried perygl o lifogydd o: Brif Afonydd a'r môr (a ddarperir ar ffurf ein Mapiau Llifogydd); Cyrsiau Dŵr Cyffredin a dŵr wyneb (y gallai ALLau fod â data arnynt); a chwlferei (ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Byrddau Draenio Mewnol neu'r Awdurdod Lleol).

** Dylid nodi y gallai gweryslyoedd diawdurdod y tu allan i ffiniau SoDdGA, ond yng nghyffiniau'r safle, hefyd gael effaith negyddol ar yr ardal warchoddedig. Rydym yn argymhell felly y dylai'r canllaw annog yr awdurdod cynllunio lleol i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru pan fo gwerysly diawdurdod wedi ei leoli'n agos at SoDdGA. Byddem yn fwy na pharod i helpu Awdurdodau Lleol i asesu os oes posibilrwydd y bydd unrhyw un o'r elfennau sy'n rheswm dros gael statws SoDdGA yn dioddef effaith negyddol.

Cwestiwn 2 – A fyddai'n ddefnyddiol petai'r canllaw hwn yn cynnwys crynodeb o bob un o'r pwerau sydd ar gael i dirfeddianwyr i ddatrys problemau gweryslya diawdurdod?

Rydym ni'n croesawu'r ffaith bod y Cod Ymddygiad yn ei gwneud yn ofynnol i sipsiwn a theithwyr gael gwared â'u gwastraff, ond nid yw'n glir yn yr ymgynghoriad pwy sy'n gyfrifol am glirio safle os bydd gweryslywyr diawdurdod yn gadael gwastraff ar eu holau. Teimlwn y dylid egluro hyn yn gliriach mewn crynodeb o bwerau.

Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn rhoi cyfrifoldeb am glirio gwastraff diawdurdod ar dirfeddianwyr dan rai amgylchiadau, os nad oes modd gwybod pwy sydd ar fai. Mae Paragraff 105 y ddogfen ymgynghori yn awgrymu bod troi allan teithwyr o safleoedd yn aml yn arwain at gostau glanhau uchel i awdurdodau lleol. Nid yw felly'n glir pwy fyddai'n gyfrifol am gostau clirio a glanhau pe bai teithwyr diawdurdod yn gadael gwastraff wrth symud o dir preifat.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dirfeddiannwr ac yn rheolwr tir (ar Ystâd Coedwig Llywodraeth Cymru). Byddai mwy o eglurdeb ar hyn o fantais i dirfeddianwyr preifat fel ni. Rydym yn awyddus i sicrhau bod unrhyw wastraff a gynhyrchir mewn gweryslyoedd diawdurdod ar ein tir ni neu ar dir a reolir gennym ni yn cael ei waredu yn y modd mwyaf effeithlon a'r lleiaf costus posibl. Rydym felly'n awgrymu y dylai'r canllaw fod yn gliriach i dirfeddianwyr yn hyn o beth.

Cwestiwn 3 – Mae'r canllaw hwn yn ceisio cael enghreifftiau o Arferion Da wrth ymdrin ag achosion o wersylla diawdurdod. Oes gennych chi enghreifftiau o Arferion Gorau y gallwch chi eu rhannu gydag Awdurdodau Lleol eraill?

Deallwn fod Cyngor Dinas Leeds yn siarad mewn “Expert Learning Day” i staff Awdurdodau Lleol ar 19 Medi, ar yr arfer gorau wrth reoli gwersylla diawdurdod. Mae mwy o fanylion ar gael ar www.ccclimited.org.uk .

Cwestiwn 4 – Ydych chi’n cytuno â’r cynnig ar gyfer y templed Cod Ymddygiad cyffredinol? Os nad ydych chi, sut gallwn ni ei wella?

Ar y cyfan, mae’r meini prawf a nodwyd yn y Cod Ymddygiad yn ymddangos yn rhesymol i ni. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid cyfeirio’n benodol at yr angen i osgoi unrhyw ddifrod i berthi a choed, ac yn benodol coetiroedd hynafol, coed a warchodir gan Orchmynion Gwarchod Coed, a choed mewn ardaloedd a warchodir (e.e. coetiroedd hynafol), neu sy’n darparu cynefin i rywogaethau a warchodir.

Rydym yn argymhell y dylid cyfeirio at yr angen i osgoi llygru neu rwystro cyrsiau dŵr.

Rydym yn argymhell y dylid newid yr ail bwynt bwled i’r canlynol er mwyn atgyfnerthu statws coetiroedd sy’n caniatáu mynediad i’r cyhoedd:

- “Gallai gwersylla ar dir a ddefnyddir gan y cyhoedd, er enghraifft parciau, caeau ysgol, meysydd parcio neu ardaloedd chwarae, arwain at achosion o droi allan di-oed.”

Rydym yn argymhell y dylai’r Cod Ymddygiad gynnwys pwynt bwled yn nodi na ddylai sipsiwn na theithwyr rwystro mynediad i:

- Asedau hamdden, er enghraifft Llwybrau Cenedlaethol.
- Amddiffynfeydd llifogydd ac asedau gweithredol eraill. Gallai Cyfoeth Naturiol Cymru fod angen mynediad i’r rhain at bwrpas cynnal a chadw.

Rydym ni’n croesawu’r ffaith bod yr angen i reoli gwastraff yn gywir wedi ei gynnwys yn y Cod Ymddygiad a gynigir, ac rydym yn nodi y gallai hyn gynnwys gwaredu gwastraff mewn Safle Amwynder Dinesig lleol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod rhai Awdurdodau Lleol wedi cyflwyno mesurau’n ddiweddar sy’n cyfyngu ar fynediad i safleoedd Amwynder Dinesig i rai mathau o gerbydau. Er enghraifft, mae rhai cerbydau allai gael eu defnyddio at bwrpas masnachol, fel cerbydau 4x4, wedi eu cyfyngu. Gall deiliaid aelwydydd nad ydynt yn defnyddio’r cerbydau hyn at ddibenion masnachol gael trwydded gan yr Awdurdod Lleol, ond mae’n rhaid iddynt fod â chyfeiriad o fewn ffiniau’r Awdurdod Lleol er mwyn gwneud hynny. Nid yw sipsiwn a theithwyr yn debygol o fod â chyfeiriad parhaol oni bai eu bod yn byw ar safle parhaol, ac felly ni fyddai modd iddynt gael y drwydded sydd ei hangen arnynt i brofi nad ydynt yn cludo gwastraff masnachol. Gallai hyn olygu nad oes modd iddynt waredu eu gwastraff. Bydd yn bwysig felly i dîm Gwastraff Llywodraeth Cymru fod yn rhan o’r ymgynghoriad hwn.

Er mwyn sicrhau cysondeb gyda’r darpariaethau ym mharagraff 108 y canllaw drafft, rydym yn argymhell y dylai’r Cod Ymddygiad ar gyfer Aros a Oddefir hefyd egluro y gallai gwersylla ar dir SoDdGA arwain at achosion o droi allan di-oed.

Cwestiwn 5 – Ydych chi’n credu bod yr Aseiad Cychwynnol o Wersylla Diawdurdod yn ymdrin â phrif broblemau Gwersylla Diawdurdod ac a yw’n ymarferol? Os nad ydych chi’n cytuno, sut gallwn ni ei wella?

Credwn y byddai’n ddefnyddiol atgoffa’r pwynt cyswllt o fewn Awdurdod Lleol i edrych i weld a oes unrhyw ddynodiadau amgylcheddol yn bodoli ar y safle, neu

os yw'r gwersyll yn peri risg benodol i'r amgylchedd. Byddai hefyd yn ddefnyddiol penderfynu os oes unrhyw faterion amgylcheddol a allai fod o berygl i'r bobl sy'n aros ar y safle.

Rydym yn argymhell felly y dylai fod yn ofynnol i'r ffurflen Asesiad Cychwynnol o Wersylla (IAW) (Atodiad 2) gynnwys cwestiynau i sicrhau'r wybodaeth ganlynol:

- Ydy'r safle wedi ei ddynodi ar gyfer gwarchod natur?
- Ydy'r safle o fewn ardal mewn perygl o lifogydd? (Mae mwy o wybodaeth ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru - www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk). (Gweler ein sylwadau ar Gwestiwn 1 am gyngor ar berygl llifogydd).
- Ydy'r safle o fewn ardal mewn perygl o lifogydd? (Gweler gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru am fwy o wybodaeth)
- Oes unrhyw gyrsiau dŵr ar y safle a allai fod mewn perygl o lygredd?
- Sut mae dŵr budr a dŵr wyneb yn cael eu gwaredu?
- Ydy'r safle mewn ardal sydd wedi ei effeithio gan lygriad tir?
- Oes unrhyw gofnod o bresenoldeb rhywogaethau a warchodir ar y safle?

Wrth wneud Asesiad Cychwynnol o Wersylla, dylid hefyd ystyried os yw'r gwersyll yn mynd yn erbyn pwrpas tirwedd wedi ei warchod. Gellid gwneud hyn trwy ofyn am gyngor gan swyddogion cynllunio'r awdurdod a chyfeirio at bolisiau cynllunio lleol a chenedlaethol.

Gellid casglu'r wybodaeth trwy astudiaeth desg a thrwy arsylwi ar y safle. Gallem ddarparu data a gwybodaeth ar yr uchod yn ôl yr angen.

Dylid rhoi gwybodaeth am adnoddau gwaredu gwastraff yr ardal ar gyfer gwastraff domestig a gwastraff masnachol fel rhan o'r Asesiad Cychwynnol o Wersylla. Byddai hyn yn sicrhau eglurdeb pe byddai "trigolion" y gwersyll yn ymwneud ag unrhyw fusnes ynghlwm wrth wastraff. Mae'n bwysig eu bod nhw'n gwybod sut a ble i waredu mathau gwahanol o wastraff. Gallai hyn helpu i atal tipio anghyfreithlon. Gallai fod yn ddefnyddiol datblygu protocol er mwyn sicrhau bod pawb yn ymdrin â hyn mewn ffordd sy'n gyson ac er mwyn sicrhau bod pob un o'r camau hyn yn cael eu cwblhau yn ystod yr ymweliad.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n credu bod yr Asesiad Lles a gynigir yn ymdrin â phrif broblemau Gwersylla Diawdurdod ac a yw'n ymarferol? Os nad ydych chi'n cytuno â ni, sut gallwn ni ei wella?

Rydym ni'n argymhell y dylai'r Asesiad Lles hefyd gynnwys cwestiynau i ddarganfod a oes gan drigolion y safle fynediad i ddŵr yfed a thoiledau.

Cwestiwn 7 – A fyddai'n ddefnyddiol i awdurdodau lleol pe bai'r canllaw yn cynnwys templedi eraill ar gyfer ymdrin â phroblemau gwersylloedd diawdurdod?

Fel y nodwyd yn ein hateb i Gwestiwn 5, credwn y dylid nodi unrhyw faterion amgylcheddol trwy astudiaeth desg a thrwy arsylwi ar y safle. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys templed ar gyfer hyn. Byddem yn croesawu'r cyfle i gydweithio â chi ar

hyn.

Adran 2 – Sylwadau eraill

Cwestiwn 8 – Ydym ni wedi gofyn y cwestiynau pwysicaf? Os nad ydym ni, pa broblemau eraill y dylem ni fod yn ceisio cael barn arnynt?

Paragraff 120 – Opsiynau sydd ar gael i Awdurdodau Lleol. Hoffem ofyn a oes modd i'r canllaw egluro'n glir y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru os mai'n tir ni yw'r tir y cyfeirir ato. Byddem hefyd yn croesawu ymgynghoriad gan Awdurdod Lleol os yw'r Asesiad Cychwynnol o Wersylla yn dod i'r casgliad bod cyfyngiadau amgylcheddol yn bodoli ar y safle (gweler ein hymateb i Gwestiwn 5).

Paragraff 140 – Pwy ddylai fod yn rhan o Strategaethau Lleol? Rydym ni'n croesawu'r cyfeiriad at Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio ar y cyd â sawl asiantaeth, fel y bo hynny'n briodol. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio ar y cyd ag Awdurdodau Lleol i ddatblygu Strategaethau Lleol.

Adran 5 – Canllaw Cam wrth Gam i Ddatrys Gwersylla Diawdurdod. Credwn y bydd yn bwysig sicrhau bod pob tîm perthnasol o fewn Awdurdod Lleol yn rhan o'r broses unwaith y bydd gweryll wedi ei gydnabod a'i gofnodi. Gallai hyn gynnwys timau rheoli llygredd a thimau gorfodi gwaredu gwastraff o fewn Awdurdod Lleol.

Adran 6 – Cyfathrebu Penderfyniadau. Gofynnwn a oes modd i'r canllaw ddangos yn glir y dylai Awdurdodau Lleol roi gwybod i ni am eu penderfyniadau, os mai ni yw'r tîfeddianwyr neu reolwr y tir, neu os oes materion amgylcheddol ynghlwm wrth y safle (gweler ein hymateb i Gwestiwn 5 am sylwadau ar faterion amgylcheddol perthnasol).

Mae ymatebion i ymgynghoriadau weithiau yn cael eu cyhoeddi – ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch y blwch yma pe bai'n well gennych gadw eich ymateb yn gyfrinachol: